



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Gwelliannau i Fesur Arfaethedig

Penderfyniad y Llywydd ar eu Ffurf Briodol

Mae'r Llywydd wedi penderfynu, o dan Reol Sefydlog 23.69, fod rhaid i ffurf gwelliannau i Fesurau arfaethedig fod fel a ganlyn:

Cyffredinol

1. Mae gwelliant i Fesur arfaethedig yn cael cynnig un newid yn unig i destun y Mesur arfaethedig; mae gwelliant i welliant yn cael cynnig un newid yn unig i destun y gwelliant hwnnw.

(Sylwch: rhaid i'r rheolau hyn gael eu darllen yn ddarostyngedig i baragraff 22.)

Ystyr "newid" yw naill ai:

- a) gadael allan testun a rhoi testun gwahanol yn ei le;
- b) gadael allan testun (heb roi testun yn ei le); neu
- c) ychwanegu testun (heb adael allan testun).

Pan fo cysylltiad rhwng nifer o newidiadau (e.e. gadael allan un gair a rhoi gair arall yn ei le mewn nifer o fannau gwahanol yn nhestun y Mesur arfaethedig neu'r gwelliant (yn ôl fel y digwydd)), er gwaethaf y cysylltiad mae'n rhaid i bob un gael ei drafod mewn gwelliant ar wahân.

2. Nid yw un gwelliant yn cael newid testun mwy nag un adran neu atodlen (e.e. ni chaiff gwelliant ddweud "Gadewch allan adrannau 5 i 7" - byddai angen tri gwelliant ar wahân, bob un yn gadael allan un o'r adrannau).

(Sylwch: Os yw adran yn rhoi ei heffaith i atodlen, bydd gwelliant sy'n gadael allan yr adran yn cael yr effaith bod yr atodlen yn cael ei gadael allan.)

3. Nid yw gwelliant yn cael cynnig newid i ran o air (e.e. er mwyn newid "merch" yn "merched", dylai gwelliant adael allan 'merch' a rhoi 'merched' yn ei le, ac nid ychwanegu '-ed' ar ddiwedd 'merch'.)

Ffurf Gwelliannau

Gwelliannau sy'n gadael allan testun ac yn rhoi testun gwahanol yn ei le

4. Rhaid i welliannau i roi adrannau neu atodlenni newydd yn lle'r rhai presennol fod ar y ffurf:

Tudalen x, llinell x, gadewch allan [adran / atodlen x] a rhowch yn ei lle [testun yr adran / atodlen newydd].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr adran neu'r atodlen sydd i'w gadael allan, gan anwybyddu unrhyw groesbennawd, oni bai bod croesbennawd newydd i'w roi yn lle'r un presennol, ac os felly y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf y croesbennawd. Os bwriedir rhoi croesbennawd newydd yn lle'r un presennol, rhaid i destun y croesbennawd newydd gael ei gynnwys yn y testun sydd i'w ychwanegu.

(Sylwch: Mae cyfeiriadau at groesbennawdau yn gyfeiriadau, yn achos adrannau, at bennawd yr adran, a welir yn union wrth ochr rhif yr adran ac, yn achos atodlenni, maent yn gyfeiriadau at deitl yr atodlen a welir yn union o dan rif yr atodlen.)

5. Rhaid i welliannau i roi isadrannau newydd neu baragraffau atodlen newydd yn lle'r rhai presennol fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, gadewch allan [is-adran / paragraff x] a rhowch yn ei le [testun yr is-adran / paragraff newydd].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr is-adran neu'r paragraff atodlen sydd i'w gadael allan, gan

anwybyddu, yn achos paragraffau atodlen, unrhyw groesbennawd, oni bai bod croesbennawd newydd i'w roi yn lle'r un presennol, ac os felly y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf y croesbennawd. Os bwriedir rhoi croesbennawd newydd yn lle'r un presennol, rhaid i destun y croesbennawd newydd gael ei gynnwys yn y testun sydd i'w ychwanegu.

(Sylwch: Mae cyfeiriadau at groesbennawdau, yn achos paragraffau atodlen, yn gyfeiriadau at bennawd y paragraff, a welir yn union uwchben y paragraff.)

6. Rhaid i welliannau i roi israniadau newydd, heblaw is-adrannau neu baragraffau atodlen, yn lle rhai presennol, fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, gadewch allan [linell x neu linellau x hyd at y] a rhowch yn ei le [testun yr israniad newydd].

(Sylwch: ystyr israniad yw israniad â rhif neu lythyren mewn is-adran neu mewn paragraff atodlen e.e. paragraff o fewn is-adran neu is-baragraff mewn paragraff atodlen.)

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf yr israniad sydd i'w adael allan.

7. Rhaid i welliannau i roi testun newydd yn lle testun presennol (heblaw'r rhai sy'n syrthio o fewn paragraffau (4), (5) a (6) uchod) fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, gadewch allan [gan nodi'r geiriau sydd i'w gadael allan] a rhowch yn ei le [y testun sydd i'w ychwanegu].

Rhaid i'r testun sydd i'w ychwanegu gael ei osod ar y ffurf y bwriedir iddo ymddangos ynddi yn y Mesur arfaethedig. Os yw'r testun sydd i'w ychwanegu yn ymgorffori is-adrannau / paragraffau atodlen ychwanegol (neu israniadau ychwanegol eraill) rhaid iddyn nhw naill ai fod heb rif neu gael eu rhifo fel na fydd rhaid ail-rifo'r darpariaethau presennol yn y Mesur arfaethedig.

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y gwelir llinell gyntaf y testun sydd i'w adael allan arni.

Gwelliannau sy'n gadael allan testun yn unig

8. Rhaid i welliannau i adael allan adrannau neu atodlenni fod ar y ffurf:

Tudalen x, llinell x, gadewch allan [adran / atodlen x].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr adran neu'r atodlen sydd i'w gadael allan, gan anwybyddu'r croesbennawd. Effaith gadael allan yr adran neu'r atodlen fydd bod y croesbennawd hefyd yn cael ei adael allan.

9. Rhaid i welliannau i adael allan is-adrannau neu baragraffau atodlen fod ar y ffurf:

Adran x, tudalen x, llinell x, gadewch allan is-adran x; neu Atodlen x, tu [FEL Y DIWYGIWYD YN YSTOD CYFNOD 2] dalen x, llinell x, gadewch allan baragraff x.

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr is-adran neu'r paragraff atodlen sydd i'w gadael allan, gan anwybyddu, yn achos paragraff atodlen, unrhyw groesbennawd. Pan fo croesbennawd yn cyfeirio at un paragraff atodlen yn unig, effaith gadael allan y paragraff fydd bod y croesbennawd hefyd yn cael ei adael allan.

10. Rhaid i welliannau i adael allan israniadau heblaw is-adrannau neu baragraffau atodlen fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, gadewch allan [linell x / linellau x hyd at y].

11. Rhaid i welliannau i adael allan testun arall fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x neu linellau x hyd at y, gadewch allan [gan nodi'r geiriau sydd i'w gadael allan].

Gwelliannau sy'n ychwanegu testun yn unig

12. Rhaid i welliannau i ychwanegu adrannau neu atodlenni newydd at y Mesur arfaethedig fod ar y ffurf:

I ychwanegu Adran / Atodlen newydd

ac wedyn testun yr adran neu'r atodlen arfaethedig gan gynnwys unrhyw groesbennawd arfaethedig.

13. Rhaid i welliannau i ychwanegu testun newydd (heblaw adrannau neu atodlenni newydd) at y Mesur arfaethedig fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, ar ôl [gan nodi'r gair yn union cyn y testun sydd i'w ychwanegu], ychwanegwch [y testun sydd i'w ychwanegu].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y gwelir gair cyntaf y testun sydd i'w ychwanegu arni.

Fel arall, os yw'r testun newydd sydd i'w ychwanegu yn dechrau ar ddechrau llinell (ond nad yw'n ymestyn i lenwi'r llinell gyfan), rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, ar ddechrau llinell x, ychwanegwch [y testun sydd i'w ychwanegu].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y mae testun i'w ychwanegu arni.

Os yw'r testun newydd sydd i'w ychwanegu yn dechrau ar ddechrau llinell ac yn ymestyn i lenwi'r cyfan o'r llinell honno, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, ar ôl llinell x, ychwanegwch [y testun sydd i'w ychwanegu].

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y mae'r testun newydd i'w ychwanegu ar ei hôl.

Mewn unrhyw un o'r achosion hyn, rhaid i'r testun sydd i'w ychwanegu:

- (a) cael ei osod ar y ffurf y bwriedir iddo ymddangos ynddi yn y Mesur arfaethedig; ond
- (b) naill ai bod heb rif neu gael ei rifo fel na fydd rhaid ail-rifo'r darpariaethau presennol yn y Mesur arfaethedig (e.e. gall is-adran newydd gael rhif sy'n dod ar ôl rhif yr is-adran olaf yn yr adran bresennol).

Gwelliannau i destun a gyflwynir ar ffurf colofnau

14. Os bydd testun yn ymddangos ar ffurf ac iddi fwy nag un golofn, er enghraifft os yw'r testun yn ymgorffori tabl, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, colofn x, gadewch allan [gan nodi'r geiriau sydd i'w gadael allan] a rhowch yn ei le [testun y paragraff newydd]

neu yn ôl fel y digwydd, gan ddibynnu ar y math o welliant.

(Sylwch: Os yw colofn wedi'i nodi yn y testun â rhif neu lythyren, rhaid defnyddio'r rhif hwnnw neu'r llythyren honno i'w nodi. Os nad yw, dylid cyfeirio at y golofn drwy rifo o'r chwith (e.e. colofn un, colofn dau etc.)

Gwelliannau i symud testun heb ei ddiwygio fel arall

15. Rhaid i welliannau i symud testun o'r naill le i'r llall yn y Mesur arfaethedig, heb ei ddiwygio fel arall, fod ar y ffurf:

Symudwch [Adran x /Atodlen x /Tabl x /llinell x /llinellau x hyd at y / colofn x] a'i roi ar ôl [Adran x /Atodlen x /Tabl x /llinell x / colofn x].

Nodi'r newidiadau sydd i'w gwneud

16. Ym mhob gwelliant, rhaid i eiriau sy'n ymddangos yn y Mesur arfaethedig a geiriau sydd i'w hychwanegu gael eu gosod mewn dyfynodau sengl (e.e. *ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol', ychwanegwch 'Cymru'*).

17. Mewn gwelliannau i adael allan geiriau a rhoi geiriau newydd yn eu lle, rhaid i'r geiriau cyntaf neu olaf sydd i'w hychwanegu beidio â bod yr un fath â'r geiriau cyntaf neu olaf sydd i'w gadael allan (e.e. rhaid i welliant beidio â gadael allan "Cynulliad" a rhoi yn ei le "Cynulliad Cenedlaethol". Y ffurf gywir ar gyfer y gwelliant fyddai: *..ar ôl 'Cynulliad', ychwanegwch 'Cenedlaethol'*).
18. Caiff gwelliannau i adael allan geiriau wneud hynny drwy gyfeirio at y geiriau hynny neu, os yw'n briodol, drwy gyfeirio at y geiriau cyntaf ac olaf sydd i'w gadael allan. Os defnyddir y ffurf olaf a bod y gair y cyfeirir ato yn ymddangos fwy nag unwaith ar y llinell, rhaid i'r gwelliant nodi pa un o'r troeon y mae'r gair yn ymddangos a fwriedir (e.e. *Adran X, tudalen x, llinellau x hyd at y, gadewch allan o 'Cymru' yn yr ail le y mae'n ymddangos ar linell x, hyd at 'ysgolion'*).

Amrywiol

19. Rhaid i welliannau i'r teitl hir ddechrau:

Teitl hir, tudalen x, llinell x,

20. Rhaid i welliannau i welliannau ddechrau:

Fel gwelliant i welliant x, ...

gan ddilyn yn gyffredinol y ffurf sy'n cyfateb i welliannau i destun y Mesur arfaethedig ei hun ond gan gyfeirio at y llinell, yr is-adran neu'r paragraff atodlen yn y gwelliant, fel y bo'n briodol.

Iaith Gwelliannau

21. Caiff gwelliant gynnig newid i destun yn y naill iaith heb newid cyfatebol i destun yr iaith arall, er enghraifft er mwyn dileu anghysondeb rhwng ystyr y ddau destun neu i ddileu gwall iaith a geir yn un o'r ddau destun yn unig. Rhaid i welliant o'r fath fod ar y ffurf:

[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, gadewch allan [gan nodi'r geiriau sydd i'w gadael allan] a rhowch yn ei le [y testun sydd i'w ychwanegu].

(Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.)

neu yn ôl fel y digwydd, gan ddibynnu ar y math o welliant.

(Sylwch: Effaith Rheol Sefydlog 29.4 yw bod rhaid i welliannau i Fesurau arfaethedig a gyflwynir gan y llywodraeth gael eu cyflwyno, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn Gymraeg a Saesneg. Caniateir i welliannau a gyflwynir heblaw gan y llywodraeth gael eu cyflwyno yn y ddwy iaith neu mewn un iaith yn unig).

22. Bydd hyd a lled y newid y bydd ei angen er mwyn bodloni amcan gwelliant yn y naill iaith yn aml yn wahanol i'r hyn y mae ei angen i'w fodloni yn y llall (e.e. gallai newid sy'n effeithio ar un gair Saesneg olygu bod angen newid dau air Cymraeg, neu *vice versa*). Er hynny, fe fydd bron bob amser yn bosibl mynegi'r gwelliant fel un newid yn y ddwy iaith. Yn eithriadol, caniateir cynnwys mwy nag un newid yn y fersiwn o'r gwelliant yn y naill iaith ar yr amod bod y fersiwn o'r gwelliant yn yr iaith arall yn gwneud un newid yn unig.

Er enghraifft:

Section x, page x, line x, after 'school', insert 'do not, subject to subsection (3),'.

Adran x, tudalen x, ar ddechrau llinell w, gadewch allan 'Mae'r' a rhowch yn ei le 'Nid yw'r'; llinell y, ar ôl 'ysgol' ychwanegwch ', yn ddarostyngedig i is-adran (3),'.

29 Ebrill 2008